

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol rolau hyblyg sy'n galluogi ein pobl i roi eu gorau, ehangu eu sgiliau a rheoli eu llwybr gyrfa. Ni fwriedir i'r proffil swydd hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o'ch dyletswyddau, yn hytrach mae'n rhoi amlinelliad i chi o'r hyn y bydd eich rôl yn ei gynnwys. Chi fydd yn gweithio gyda'ch cydweithwyr i ddatblygu a siapio eich gwaith yn unol â'n hamcanion strategol ac amcanion eich tîm.

Cyfieithydd Cymraeg

Ein swyddogion

Fel swyddog yn y Gronfa, beth bynnag fo'ch arbenigedd, bydd gennych ddigon o gyfle i gael ymreolaeth a chyfrifoldeb. Byddwch yn defnyddio eich barn a'ch gwybodaeth i wneud argymhellion a phenderfyniadau, a bydd eich sgiliau o ran deall anghenion gwahanol gwsmeriaid, gan roi cyngor ac adborth yn dod i'r adwy. Ni fydd angen llawer o oruchwyliaeth arnoch gan eich uwch gydweithwyr sy'n cymryd arweinyddiaeth bersonol o'ch gwaith eich hun a'ch datblygiad eich hun. Byddwch yn ymfalchïo yn eich gwaith ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ac yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid yn fewnol ac yn allanol.

Eich rôl

Yn y rôl benodol hon, byddwch yn arwain ac yn rheoli gwasanaeth cyfieithu Cymraeg o ansawdd uchel ar gyfer Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ledled y DU. Byddwch yn sicrhau bod ein holl ddeunyddiau ar-lein ac all-lein, gan gynnwys tudalennau gwe newydd, cyhoeddiadau corfforaethol a mentrau yn cael eu cyfieithu ar amser i derfynau amser y cytunwyd arnynt.

Mae cefnogi Swyddog y Gymraeg i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg, drwy helpu i ledaenu'r hyn sy'n ofynnol i gydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad a budd-ddeiliaid allanol, gan gynnwys sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb a thrwy ein Mewnrwyd yn hanfodol i'r rôl hon.

Gan arwain ar ran Cyfarwyddiaeth Cymru, byddwch yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Trawsnewid Digidol i ddehongli mewnwelediadau defnyddwyr ar-lein i Gymru a defnyddio'r rhain i gefnogi taith y cwsmer i ddarparu'r profiad gorau posibl i'r rhai sy'n ymgysylltu ar-lein yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae meddylfryd rhagweithiol yn hanfodol ar gyfer y rôl hon gan y bydd gofyn i chi greu a chynnal cysylltiadau cryf â chydweithwyr ar draws nifer o dimau, gan gynnwys y Tîm Trawsnewid Digidol, Brand a Chyhoeddiadau a Chysylltiadau â'r Cyfryngau.

Byddwch yn cefnogi cwsmeriaid drwy gydol eu taith gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, gan roi ein cwsmeriaid wrth wraidd ein gwaith, a byddwch yn cefnogi'r gwaith o ddarparu cyfathrebiadau dwyieithog rhagorol i gwsmeriaid.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr fel rhan o'n timau integredig yng Nghymru a'r DU i gefnogi a gyrru ein cynnwys ar-lein, golygyddol, dylunio a marchnata ar gyfer cynulleidfa(oedd) penodol Cymru. Wrth gwrs, bydd angen i chi hefyd weithio o fewn polisiau a gweithdrefnau'r Gronfa a'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, ac mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth a'n hegwyddorion. Os yw'r rôl wedi'i lleoli yng Nghymru, neu'n cefnogi cwsmeriaid neu gydweithwyr yng Nghymru, mae angen dealltwriaeth o ddeddfwriaeth y Gymraeg a Safonau'r Gronfa.

Eich profiad

Fel swyddog, efallai eich bod wedi cael eich dyrchafu drwy ein llwybrau gyrfa mewnol ar ôl dangos eich sgiliau a'ch galluoedd arwain neu fel arall efallai y byddwch yn dod o faes allanol. Y naill ffordd neu'r llall, bydd angen i chi ddangos eich profiad a'ch cymwysterau yn y meysydd hyn:

- Meddu ar Radd yn y Gymraeg neu radd a gymerir drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â chymhwyster cyfieithu cydnabyddedig
- Yn rhugl mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, gyda chofnod profedig o brawf-ddarllen Cymraeg o ansawdd uchel
- Y gallu i gydgyssylltu systemau a phrosesau a datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol i alluogi cydweithio ar draws y Gronfa
- Sgiliau digidol cryf, dealltwriaeth o'r dirwedd ddigidol a phrofiad sylweddol o ddefnyddio cynnwys digidol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd
- Profiad o ddefnyddio mewnwelediadau a arweinir gan ddata i adeiladu ymgyrch gyfathrebu, asesu ei heffaith a gwerthuso ei llwyddiant
- Y gallu i weithio'n gywir i derfynau amser tynn
- Dealltwriaeth gref o bwysigrwydd cangen ar draws y cymysgedd cyfathrebu

Byddwch yn gallu

ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

- Bod yn frwdfrydig wrth weithio tuag at nodau a rennir, ac annog eraill i wneud yr un peth
- Bod yn ymrwymedig i weledigaeth ac egwyddorion y Gronfa, ac annog eraill i wneud yr un peth
- Cymryd perchnogaeth o'ch datblygiad personol eich hun drwy nodi eich cryfderau a'ch meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi hyn
- Bod yn chwaraewr tîm cefnogol sy'n dangos diddordeb mewn eraill, ac yn datblygu ystod o gysylltiadau y tu allan i'r tîm eu hunain i helpu i wneud y gwaith

MEITHRIN PERTHNASOEDD GWYCH

- Rhwydweithio'n fewnol ac yn allanol, rhoi eich hun yn sefyllfa cwsmeriaid a gweithredu ar y pethau sy'n bwysig i bobl
- Cyfathrebu mewn modd gonest a diddorol, gyda'r gallu i Ddylanwadu a thrafod gan ddefnyddio dadleuon da ac ystod o strategaethau i argyhoeddi eraill
- Gwrando'n weithredol, ac ymateb i eraill mewn ffordd wybodus, gan gydnabod cyfraniad a gwerth safbwyntiau amrywiol

CYFRIFOLDEB PERSONOL

- Ceisio a gweithredu'n barhaus ar adborth i werthuso a gwella eich perfformiad eich hun

- Parhau i weithio'n dda o dan bwysau a delio â blaenoriaethau lluosog a rhai sy'n cystadlu, gan gefnogi eraill pan fo angen
- Cymryd perchnogaeth a bod yn atebol am eich gwaith eich hun, ac annog cydweithwyr i wneud yr un peth

DARPARIAETH

- Nodi cyfleoedd i rannu dysgu, gwybodaeth, a gwneud gwelliannau drwy weithio gyda chydweithwyr
- Defnyddio'r systemau a'r data sydd ar gael i chi i gwblhau eich gwaith eich hun yn effeithiol a gwella gwaith eich tîm
- Mynd ati i chwilio a dadansoddi'r wybodaeth sydd ar gael, gan ei defnyddio i lywio eich barn a chwblhau eich gwaith yn effeithiol
- Bod yn ymatebol i faterion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar eich gwaith, gwaith eich tîm, neu'r Gronfa
- Deall gofynion llywodraethu da a darparu atebion i risgiau a materion

Ein meddylfryd

- Rwy'n angerddol am y potensial i wneud grantiau rhagorol
- Rwyf wedi ymrwmo i rwydweithio effeithiol ar draws a thu hwnt i'r Gronfa
- Rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a dyheadau cymunedau a chydweithwyr gan gydnabod yr angen i ddarparu cyfle cyfartal
- Rwy'n chwilfrydig ac yn mynd ati i chwilio am ffyrdd newydd o wneud pethau
- Byddaf yn gwrando, yn dysgu, yn darparu ac yn annog adborth a her
- Rwy'n gyfrifol ac yn atebol am y gwaith rwy'n ei wneud
- Rwy'n gweithio'n hyblyg ac ar y cyd i ddiwallu anghenion pobl eraill
- Rwy'n cymhwyso gwybodaeth a phrofiad i rannu fy nysgu
- Rwyf am wneud y Gronfa yn lle gwych i weithio

Eich teulu swydd yw	Cyflawni Gweithredol	Eich cyfarwyddiaeth yw	Cymru
Eich dull o weithio yw	Swyddfa	Eich templed rôl yw	Swyddog